



Dod â data'n fyw

Archwilio delweddiad data

1 Eglurwch i'r grŵp bydd disgwyl iddyn nhw feddwl am ba ffyrdd gwahanol gall data tywydd gael ei ddelweddu. Os yw'r grŵp yn newydd i'r pwnc hwn dechreuwch drwy ddangos y **ffilm Dod â data'n fyw** (hyperddolen ar sleid 2) Gofynnwch beth maen nhw'n meddwl yw 'data tywydd'? (H.y. gall gyfeirio at ddata a arsylwyd neu a ragwelir, yn ogystal â data sy'n adlewyrchu effeithiau go iawn a rhagweledig y tywydd)

2 Nesaf dangoswch enghraifft o ddelweddiad data (sleid 3) sy'n dangos enghreifftiau o ddelweddiadau data a ddefnyddir i gyfathrebu tywydd heddiw a gofynnwch a ydynt yn gyfarwydd ag unrhyw un o'r rhain.

Rhannwch y grŵp yn grwpiau o 3 - 4. Gan weithio yn eu grwpiau, dylai pobl ifanc gwblhau'r templed data ffeil ffeithiau (ar dudalen xx) drwy ymchwilio un o'r mathau canlynol o ddata tywydd:

- Tymheredd aer (neu arwyneb y môr)
- Gwasgedd atmosfferaid
- Cyflymder a chyfeiriad y gwynt
- Gwlybanaeth (glawiad)



15 munud



Gwaith grŵp



Templed ffeil ffeithiau

Sleid delweddiad data
sleidiau cyflwyniad

- Cymylogrwydd
- Effeithiau'r tywydd

Dylai'r ffeil ffeithiau gynnwys delweddau o rai o'r technegau delweddu tywydd, ac ystyried sut y gellir cyflwyno'r un set o ddata mewn gwahanol ffyrdd. Ewch o gwmpas y grwpiau i gyd gan ofyn cwestiynau cynorthwyl iddynt i wella eu hymchwil a'u dysgu, er enghraifft:

- Pa fath o bobl/sefydliadau a fyddai'n dibynnu ar y data tywydd maent wedi ymchwilio iddo, a pham?
- Beth yw'r fantais o ddelweddu data, yn hytrach na'i gyflwyno ar ffurf arall?
- Beth yw manteision ac anfanteision pob math o ddelweddiad data?

3 Gofynnwch i'r grŵp gyflwyno beth maen nhw wedi ei ddysgu am y mathau gwahanol o ddata tywydd.



Templed ffeil ffeithiau

Darluniwch neu disgrifiwch ddelweddau gwahanol o'r mathau canlynol o ddata. Efallai y bydd mwy nag un ffordd o gynrychioli'r un set o ddata.

Tymheredd aer (neu arwyneb y môr)

Gwasgedd atmosfferaid

Cyflymder a chyfeiriad y gwynt

Gwlybanaeth (glawiad)

Cymylogrwydd

Effeithiau'r tywydd